## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu |
| **DYDDIAD:** | 6ed Gorffennaf 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Ar-lein / Siambr, Penmorfa |
| **TEITL:** | Trosolwg o e-sgol |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Er gwybodaeth |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Ddim yn berthnasol |

**CEFNDIR:**

Mae prosiect e-sgol wedi bod yn rhedeg ers Medi 2018, gyda'r bwriad gwreiddiol o gefnogi ysgolion trwy gynnig gwersi, trwy e-ddysgu i ddisgyblion ôl-16, na fyddai ar gaelheb y ddarpariaeth hon. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru, a Cheredigion sy'n gyfrifol am gydlynu'r prosiect yn genedlaethol.

Ar ôl treialu yng Ngheredigion, symudwyd ymlaen i Bowys a GWE, ble mae effaith gadarnhaol e-sgol i'w weld yn ffynnu erbyn hyn. Mae'r tîm wedi tyfu i gynnwys Pennaeth, 3 Arweinydd Uwchradd ac un Arweiyndd Cynradd i ddechrau yn y dyfodol agos. Mae'r prosiect hefyd wedi amsugno peth o waith y prosiect "Ymlaen a'r Dysgu" sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg ôl-16 o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd am gario ymlaen i ddatblygu eu sgiliau yn y chweched dosbarth.

Ym mis Ionawr 2021, comisiynwyd e-sgol gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfres o sesiynau adolygu byw ar gyfer myfyrwyr TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Caiff y rhain eu recordio hefyd, er mwyn i fyfyrwyr ailymweld â hwy ar unrhyw adeg. Nod y sesiynau yw cyfoethogi gwybodaeth y myfyrwyr mewn gwahanol bynciau ac i gynnig cymorth pellach i'r gwaith anhygoel mae'r athrawon yn eu cyflawni yn eu hysgolion. Mae'r sesiynau adolygu byw AM DDIM ac ar gael i bob myfyriwr ledled Cymru a thu hwnt.

### Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD:

Ers y pandemig, mae dysgu cyfunol wedi dod yn gyfarwydd i holl ddisgyblion Cymru ac mae arweinwyr e-sgol wedi bod yn flaengar yn cynnig cymorth a hyfforddiant i ysgolion yn y maes hwn.

Elfennau llwyddiannus eraill sydd wedi eu lansio yn ddiweddar gan dîm e-sgol yw Carlam Cymru, sef cynllun adolygu cenedlaethol ar gyfer TGAU a Safon Uwch; gweithio gyda'r Mudiad Meithrin ar draws Cymru; a'r cynllun o gysylltu Unedau Cyfeirio Disgyblion gydag ysgolion cyfagos sy'n ffordd o ddarparu cyrsiau TGAU i ddisgyblion bregus tra'n hyfforddi athrawon prif-lif ar dechnegau addysgu penodol.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** |

***Crynodeb:***
**Hirdymor:**
**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**ARGYMHELLION:**

Derbyn diweddariad er gwybodaeth

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Diweddaru aelodau'r Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Gwion Dafydd |
| **Swydd:** | Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 14eg Mehefin 2023 |
| **Acronymau:** | Dim |